## ATODLEN 1

## TANWYDDAU AWDURDODEDIG

**6** Bryant and May Firelogs a weithgynhyrchir gan Swedish Match yn Kostenetz, Bwlgaria—

(a) sy'n cynnwys cwyr paraffin (sef rhyw 50 y cant o'r cyfanswm pwysau), pren poplys mâl (sef rhyw 25 y cant o'r cyfanswm pwysau), blawd gwenith (sef rhyw 15 y cant o'r cyfanswm pwysau), solidau cyneuadwy ar wasgar mewn cwyr paraffin ar ffurf jel (sef rhyw 1 y cant o'r cyfanswm pwysau) a dŵ r, cyfryngau chwyddo a chadwolyn (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys eu hallwthio;

(c) y mae iddynt drawstoriad cwadrant o ryw 80 milimetr o radiws, ac sy'n rhyw 265 milimetr o hyd gyda stribyn cynnau ar hyd un ymyl, ac sy'n pwyso rhyw 1.15 cilogram; ac

(ch) nad ydynt yn cynnwys mwy na 0.1 y cant o sylffwr o'r cyfanswm pwysau.